**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**8 TACHWEDD 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 8 Tachwedd 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Ian Dunbar, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, David Evans, a Veronica Gay

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Mynychodd y canlynol fel Aelod lleol:
Y Cynghorydd David Williams ar gyfer eitem 6.2 (057343) ar y rhaglen

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gynllunwyr, Uwch Gyfreithiwr a Swyddog Pwyllgorau.

**Y DIWEDDAR CARL SARGEANT, AELOD CYNULLIAD**

Cyn dechrau'r cyfarfod dywedodd y Cadeirydd mai gyda thristwch o'r mwyaf y clywyd am farwolaeth Carl Sargeant, Aelod Cynulliad, oedd wedi bod yn gaffaeliad mawr i Sir y Fflint gyda nifer o Aelodau wedi ei adnabod yn bersonol. Gofynnodd i'r holl Aelodau, swyddogion ac aelodau o'r wasg a'r cyhoedd i gymryd rhan mewn munud o dawelwch er anrhydedd iddo a mynegodd ei gydymdeimlad i'w deulu a'i ffrindiau.

Cynghorodd yr Uwch Gyfreithiwr ei fod wedi derbyn hysbysiad fod y Cynghorydd David Williams a'r Cynghorydd Cindy Hinds yn dymuno siarad ar eitem 6.2. yn y rhaglen fel Aelodau Ward Leol gyfagos. Ond, nid oedd y Cynghorydd Cindy Hinds wedi gallu mynychu'r cyfarfod.

**35. DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**36. SYLWADAU HWYR**

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hychwanegu i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4189&Ver=4&LLL=0

## 37. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2017.

Materion yn codi

Tudalen 9: Awgrymodd y Cynghorydd Mike Peers fod y cofnodion yn y dyfodol yn darparu eglurhad o'r rheswm pam fod cais wedi ei ohirio.  Cytunodd y Pwyllgor i hyn.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 38. EITEMAU I'W GOHIRIO

Argymhellodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) fod eitem rhif 6.4 – (057540) ar y rhaglen  - Cais Llawn – newidiadau i'r mathau o dai sydd eisoes wedi'u cymeradwyo i ganiatáu ar gyfer 73 annedd (cynnydd o 9 o'i gymharu â'r hyn a gymeradwywyd yn flaenorol (cyfeirnod: 050300) yng Nghroes Atti, Ffordd Caer, Oakenholt, yn cael ei ohirio.  Eglurodd ei fod yn argymell fod y cais yn cael ei ohirio er mwyn cael eglurder yn ymwneud â'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy.

Pan gynhaliwyd y bleidlais cafodd yr eitem ei ohirio.

**PENDERFYNWYD:**

Gohirio eitem rhif 6.4 - (057540) ar y rhaglen - Cais Llawn - newidiadau i'r mathau o dai sydd eisoes wedi'u cymeradwyo i ganiatáu ar gyfer 73 annedd (cynnydd o 9 o'i gymharu â'r hyn a gymeradwywyd yn flaenorol (cyfeirnod: 050300) yng Nghroes Atti, Ffordd Caer, Oakenholt.

## 39. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Cais Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad, gan gynnwys penderfyniadau'r apêl.

**40. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – I YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Eithrio’r wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod gan fod yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried yn wybodaeth wedi’i heithrio yn rhinwedd paragraff 16 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).

**41. 055590 – APÊL GAN REDROW HOMES (YR APELWYR) MEWN PERTHYNAS Â’R CAIS CYNLLUNIO AR GYFER DATBLYGIAD PRESWYL ARFAETHEDIG YN FFORDD CAER, PENYMYNYDD**

**PENDERFYNWYD:**

Fod y Pwyllgor yn cefnogi achos yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn yr Apêl yn llawn, gan gynnwys cyflwyno tystiolaeth i’r Ymchwiliad Cynllunio mewn perthynas ag effeithiau andwyol ar y tirlun, yr ystyriai’r Pwyllgor a ffurfiai ran o’i Reswm dros Wrthod cyntaf wrth benderfynu gwrthod caniatâd cynllunio yn y mater hwn.

**42. AELODAU O’R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau’r cyfarfod roedd 14 aelod o’r cyhoedd ac un aelod o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 4.05pm)

**…………………………**
**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â’r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

## PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 8 TACHWEDD 2017

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 056742 | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Cais Llawn - Datblygiad preswyl ar gyfer 160 o anheddau a gerddi cysylltiedig â maes parcio ym Maes Gwern, Yr Wyddgrug. | Siaradodd Mr S. Facci yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr. D. Halliday, asiant i'r ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd A. Parry, Cyngor Tref Yr Wyddgrug yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar gwblhau cytundeb yn unol ag Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog a'r newidiadau argraffyddol yn nhaflen y sylwadau hwyr.<br>. |
| 057343 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn – Dymchwel y storfa sment bresennol a chyfleusterau llwytho, a chodi Melin Rolio Fertigol newydd, cyfleuster llwytho ar reilffordd ac addasu ac ymestyn y rheilffordd bresennol, ynghyd â datblygiad atodol yn Castle Cement Ltd.<br>Chester Road, Padeswood. | Siaradodd Mrs. L Terry yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr. A. Bower, asiant i'r ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd David Williams, fel Aelod Ward leol gyfagos, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057588 | Cyngor Tref Shotton | Cais Llawn – Addasu a newid defnydd adeilad i greu tŷ amlfeddiannaeth chwe ystafell wely yn 13 Health Street, Shotton. | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog ac amod ychwanegol yn ymwneud â storio bin. |
| 057540 | Cyngor Tref y Fflint | Cais Llawn – Newidiadau i'r mathau o dai sydd eisoes wedi'u | Gohirio | Eitem wedi ei ohirio i gael eglurder ynglŷn â'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | cymeradwyo i ganiatáu ar gyfer 73 annedd (cynnydd o 9 o'i gymharu â'r hyn a gymeradwywyd yn flaenorol (cyfeirnod: 050300) yng Nghroes Atti, Ffordd Caer, Oakenholt. | | |
| 056875 | Cyngor Cymuned Sealand | Cais Llawn – Estyniad i ddarparu storfa mewn cysylltiad â'r defnydd cyfreithlon presennol yn Marcher Court, Sealand Road, Caer. | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad (ond gan dynnu amod 4), ac yn ddibynnol ar rwymedigaeth A106 sy'n sicrhau fod storfa awyr agored ar safle'r cais ac ar y tir wedi ei amlinellu â llinell las ar gynllun y cais, yn cael ei ddiddymu, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 056415 | Cyngor Cymuned Halcyn | Cais Llawn - Newid defnydd ac ymestyn tŷ allan i greu annedd yn Ael y Bryn, Moel y Crio, Treffynnon. | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar gwblhau Cytundeb adran 106 i sicrhau fforddiadwyedd yr annedd yn y dyfodol, yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog ac amodau ychwanegol yn ymwneud â draenio ac amddiffyn y garthffos bresennol. |
| 057430 | Cyngor Cymuned Chwitffordd | Cais Llawn – Codi estyniad i sied amaethyddol bresennol yn Waen y Lloc, Lloc. | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 056574 | Cyngor Cymuned Sealand | Cais am Ganiatâd Sylweddau Peryglus yn Valspar, Parkway, Parc Diwydiannol Glannau | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | Dyfrdwy. | | |
| **Penderfyniadau Apeliadau** | | | | |
| 056879 | Amherthnasol | Apêl gan Lidl UK yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio i arddangos 1 arwydd totem 3m o uchder wedi'i oleuo'n fewnol yn Lidl, Coleshill Street, Treffynnon - **GWRTHODWYD**. | Amherthnasol | Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl. |